

## Polisi Rheoli Moddion

### 1. Darparu Meddyginiaeth

Dylid annog rhieni i ofyn i'w meddyg teulu a ydyw'n bosibl amseru'r dognau o feddyginiaeth i'w cymryd y tu allan i oriau arferol ysgol. Lle bynnag y bo modd, dylai rhieni / warchodwyr disgyblion sydd angen meddyginiaeth yn ystod oriau ysgol, fynychu'r ysgol i ddarparu'r feddyginiaeth i'w plant.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth corff llywodraethol yr ysgol, yn cytuno i ddarparu meddyginiaethau yn yr ysgol.

- 1.1 Mae unrhyw aelod o staff sy'n cytuno i ddarparu meddyginiaeth i ddisgyblion yn gwneud hynny ar sail wirfoddol. Ond awgrymir yn gryf na ddylent wneud hynny cyn cael hyfforddiant perthnasol
- 1.2 Rhaid i staff sy'n gwirfoddoli i ddarparu meddyginiaeth, dderbyn yr hyfforddiant cywir cyn cael caniatâd i roi meddyginiaeth i unrhyw ddisgybl.
- 1.3 Rhaid i ysgol dderbyn ffurflen/llythyr wedi ei chwblhau gan rieni/warchodwyr disgyblion yn gofyn am i'r ysgol ddarparu'r feddyginiaeth yn ystod oriau'r ysgol.
- 1.4 Mae'n angenrheidiol i'r pennaeth/person mewn gofal, gytuno'n ffurfiol â'r cais cyn y rhoddir unrhyw feddyginiaeth.
- 1.5 Os yw'r disgybl yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth, ni ddylid ei orfodi i wneud hynny. Rhaid hysbysu'r rhieni os yw disgybl yn gwrthod cymryd meddyginiaeth. Os yw disgybl yn gwrthod meddyginiaeth mewn sefyllfa o argyfwng (e.e. pigiad adrenalin mewn achos o anaffylaxis), rhaid cael cymorth meddygol proffesiynol a hysbysu'r rhieni yn syth.
- 1.6 Dylai staff wneud eu gorau i sicrhau y caiff preifatrwydd a balchder y disgybl eu hamddiffyn, hyd yn oed mewn sefyllfa o argyfwng.
- 1.7 Os oes angen triniaeth bersonol neu ymyrgar ar ddisgybl, dylai dau aelod o staff fod yn bresennol; ceisir i un fod o'r un rhyw â'r disgybl.

### 2. Cadw Meddyginiaeth

- 2.1 Ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw feddyginiaeth nad yw yn ei gynhwysydd gwreiddiol.

2.2 Rhaid labelu pob meddyginiaeth yn eglur gydag enw a dosbarth y disgybl.

2.3 Heb law am anadlwyr asthma, meddyginiaethau sy'n rhaid eu cadw yn yr oergell, a meddyginiaethau a all fod yn angenrheidiol mewn argyfwng, rhaid cadw pob meddyginiaeth arall mewn ardal allan o gyrraedd disgyblion.

2.4 Rhaid storio unrhyw feddyginiaeth sydd angen ei chadw yn yr oergell yn stafell yr athrawon.

2.5 Caniateir i ddisgyblion y credir eu bod yn ddigon aeddfed i gymryd cyfrifoldeb am eu hanadlwr asthma ei gario gyda hwy cyn belled â bod cais ffurfiol wedi ei wneud gan y rhiant.

2.6 Yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle, dylid cario unrhyw feddyginiaeth angenrheidiol gan yr aelod o staff sy'n gyfrifol am y gweithgaredd neu aelod o staff gyda hyfforddiant cymorth cyntaf. Dylai disgyblion all fod angen eu meddyginiaeth ar frys fod mewn grwp sy'n cael ei oruchwyllo gan yr aelod o staff sy'n cario'r feddyginiaeth. Dylai disgyblion yr ystyrir eu bod yn ddigon cyfrifol i gymryd cyfrifoldeb am eu meddyginiaeth asthma gael caniatâd i'w chario gyda hwy cyn belled â bod cais ffurfiol wedi ei wneud gan y rhiant.

2.7 Ni ddylai staff fyth drosglwyddo meddyginiaeth o'i gynhwysydd gwreiddiol i gynhwysydd arall oni bai bod y cynhwysydd gwreiddiol wedi malu. Mewn achos o'r fath, dylid labelu'r cynhwysydd newydd yn eglur gyda'r holl wybodaeth a gaed ar label y cynhwysydd gwreiddiol. Rhaid hysbysu'r rhiant o unrhyw ddifrod i gynhwysyddion.

2.8 Ni ddylai staff yr ysgol waredu unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei defnyddio. Dyma gyfrifoldeb y rhiant. Rhaid i'r rhiant gasglu unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei defnyddio ar ddiwedd pob hanner tymor. Pe na bai'r rhieni yn gallu dod i'r ysgol, gallai'r nyrs ysgol gynorthwyo i gael gwared ag unrhyw feddyginiaeth heb ei defnyddio a adawyd yn yr ysgol. Os yw meddyginiaeth disgybl yn gorffen neu ei dyddiad yn terfynu, cyfrifoldeb y rhieni yw ei hailgyflenwi.

**Mabwysiadwyd gan y Llywodraethwyr:**

**Arwyddwyd:**

**Dyddiad:**